# TAFLEN BENDERFYNIAD AELOD UNIGOL O GABINET CYNGOR GWYNEDD

| | |
|---|---|
| **DYDDIAD Y PENDERFYNIAD** | 24 Mai 2018 |
| **DYDDIAD CYHOEDDI'R PENDERFYNIAD** | 30 Mai 2018 |
| **DYDDIAD Y BYDD Y PENDERFYNIAD YN DOD I RYM** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25.1 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd. | 7 Mehefin 2018 |

**ENW A THEITL YR AELOD CABINET**
Cyng. Gareth Thomas – Aelod Cabinet Addysg

**PWNC**
Gorwariant Ysgol Uwchradd Tywyn

**PENDERFYNIAD**

Darparu dyraniad cyllidol ychwanegol un tro o £67,500 i Ysgol Uwchradd Tywyn yn y flwyddyn gyllidol 2018/19.

**RHESWM DROS YR ANGEN AM Y PENDERFYNIAD –**

Gweler yr adroddiad atodedig

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**

Dim

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD-**

Ymgynghorwyd â –
Swyddogion Statudol Cyngor Gwynedd ac Aelodau Etholedig Lleol i Dywyn.
Adroddir ar ganlyniadau'r ymgynghoriadau yn yr adroddiad atodedig.

## TAFLEN BENDERFYNIAD AELOD UNIGOL O GABINET CYNGOR GWYNEDD – ADRODDIAD SWYDDOG

| | |
|---|---|
| Enw a theitl yr Aelod/au Cabinet : | Cynghorydd Gareth Thomas<br>Aelod Cabinet Addysg |
| Enw a theitl Awdur yr Adroddiad : | Owen Owens<br>Uwch Reolwr Gwasanaeth Adnoddau Addysg |
| Dyddiad y Cymerwyd y Penderfyniad : | 24 / 5 / 2018 |
| Llofnod yr Aelod/au Cabinet : | |

**Pwnc :**

Gorwariant Ysgol Uwchradd Tywyn

**Argymhelliad ar gyfer y Penderfyniad :**

Darparu dyraniad cyllidol ychwanegol un tro o £67,500 i Ysgol Uwchradd Tywyn yn y flwyddyn gyllidol 2018/19.

**Rheswm dros yr angen am y Penderfyniad :**

Wrth ystyried diffyg ariannol yr ysgol, yr hyn dwi'n awyddus i'w osgoi gymaint ag y gallaf yw sefyllfa lle mae'r ysgol yn diswyddo staff a chadw'r swyddi hynny yn wag am gyfnod penodol er mwyn creu arbedion ariannol i ddileu'r diffyg ac wedyn ail benodi i'r swyddi hynny. Byddai hyn yn creu cost ariannol i'r Cyngor (mae costau diswyddo ynghyd ag rhyddhau pensiwn yn fuan lle'n briodol yn disgyn ar yr Adran Addysg) ac yn effeithio ansawdd addysg y disgyblion fydd yn yr ysgol dros y cyfnod dan sylw.

Am y rhesymau hyn dwi wedi penderfynu darparu cyfraniad cyllidol ychwanegol unwaith ac am byth o £67,500, swm sy'n cyfateb i osgoi diswyddo oddeutu un a hanner athro profiadol am flwyddyn, ar yr amod bod yr ysgol yn cadarnhau y bydd yn cynllunio ymlaen llaw ar gyfer sefydlu cyllideb gytbwys flynyddol i'r dyfodol.

Rwyf yn darparu swm sy'n uwch na'r diffyg cyhoeddwyd ar 31 Mawrth 2018 am y rheswm bod gan yr ysgol ymrwymiadau gwariant anorfod gwerth dros £30,000, sydd wedi llithro o'r flwyddyn gyllidol 2017/18, fydd nawr yn digwydd yn 2018/19 (h.y. pe byddai'r gwariant wedi digwydd yn ystod 2017/18 byddai diffyg yr ysgol ar 31/3/2018 wedi dangos -£79,034).

**Rhesymeg a chyfiawnhad dros gyrraedd y Penderfyniad :**

Ar gais y Fforwm Cyllid Ysgolion cynhaliwyd ymchwiliad manwl gan arbenigwr annibynnol i ddiffyg ariannol Ysgol Uwchradd Tywyn, gan arwain at gyflwyno adroddiad i gyfarfod o'r Fforwm ar 10 Gorffennaf 2017 (linc isod)

https://democratiaeth.cyngor.gwynedd.gov.uk/documents/s500002944/Adroddiad%20Cyllideb%20a%20Diffyg%20Ariannol%20Ysgol%20Tywyn.pdf?LLL=1

Amlygwyd gan yr arbenigwr sawl rheswm tu ôl i ddiffyg ariannol yr ysgol a chadarnhawyd erbyn y flwyddyn gyllidol 2017/18 y byddai'r ysgol mewn sefyllfa i allu sefydlu cyllideb gytbwys yn flynyddol.

Byddai'n anodd iawn, fodd bynnag, i'r ysgol gyfrannu'n sylweddol tuag at leihau diffyg ariannol hanesyddol yr ysgol heb effeithio'n andwyol ar ansawdd addysg y disgyblion sydd yn yr ysgol ar hyn o bryd.

Mae'r ysgol yn derbyn dyraniad ychwanegol o dan y cynllun gwarchodaeth lleiafswm nifer athrawon sy'n ariannu'r lleiafswm nifer athrawon sydd ei angen mewn Ysgol Uwchradd CA3/4 er mwyn cynnig cwricwlwm sy'n cwrdd â'r gofynion statudol.

Wrth ystyried diffyg ariannol yr ysgol, yr hyn dwi'n awyddus i'w osgoi gymaint ag y gallaf yw sefyllfa lle mae'r ysgol yn diswyddo staff a chadw'r swyddi hynny yn wag am gyfnod penodol er mwyn creu arbedion ariannol i ddileu'r diffyg ac wedyn ail benodi i'r swyddi hynny. Byddai hyn yn creu cost ariannol i'r Cyngor (mae costau diswyddo ynghyd â rhyddhau pensiwn yn fuan lle'n briodol yn disgyn ar yr Adran Addysg) ac yn effeithio ansawdd addysg y disgyblion fydd yn yr ysgol dros y cyfnod dan sylw.

Am y rhesymau uchod dwi wedi penderfynu darparu cyfraniad cyllidol ychwanegol unwaith ac am byth o £67,500, swm sy'n cyfateb i osgoi diswyddo oddeutu un a hanner athro profiadol am flwyddyn, ar yr amod bod yr ysgol yn cadarnhau y bydd yn cynllunio ymlaen llaw ar gyfer sefydlu cyllideb gytbwys flynyddol i'r dyfodol.

Rwyf yn darparu swm sy'n uwch na'r diffyg gyhoeddwyd ar 31 Mawrth 2018 am y rheswm bod gan yr ysgol ymrwymiadau gwariant anorfod gwerth dros £30,000, sydd wedi llithro o'r flwyddyn gyllidol 2017/18, fydd nawr yn digwydd yn 2018/19 (h.y. pe byddai'r gwariant wedi digwydd yn ystod 2017/18 byddai diffyg yr ysgol ar 31/3/2018 wedi dangos -£79,034).

Defnyddir arian o gronfa wrth gefn penodol sydd gan yr Adran Addysg tuag at faterion Addysg sydd wedi'i ariannu trwy addasiad i'r polisi gwarchodaeth lleiafswm staffio a gyflwynwyd o 2016/17 ymlaen, ble mae'r dyraniad gwarchodaeth yn cael ei leihau yn gyfatebol i'r elfen balansau sydd dros 5% (gan ddefnyddio'r swm balansau ar ddiwedd y flwyddyn gyllidol ddiweddaraf gafodd ei gyhoeddi).

Hanes Balansau Ysgol Uwchradd Tywyn:

| | |
|---|---|
| 31/03/2012 | £115,799 |
| 31/03/2013 | £96,856 |
| 31/03/2014 | £404 |
| 31/03/2015 | -£17,943 |
| 31/03/2016 | -£59,375 |
| 31/03/2017 | -£116,177 |
| 31/03/2018 | -£49,034 |

**Cofnod o unrhyw fuddiant a ddatganwyd gan unrhyw Aelod Cabinet yr ymgynghorwyd â hwy ac unrhyw oddefeb gan Bwyllgor Safonau :**

Dim.

**Unrhyw ymgynghoriadau a gynhaliwyd cyn gwneud y Penderfyniad :**

**Prif Swyddog Cyllid –**

"Cadarnhaf y bu ymgynghoriad ac ystyriaeth addas, fod swm y dyraniad cyllidol ychwanegol yn briodol, ac rwy'n cefnogi'r penderfyniad yn yr amgylchiadau eithriadol yma. Ymhellach, cadarnhaf fod gan yr Adran Addysg gyllid digonol mewn cronfa wrth gefn i weithredu'r dyraniad ychwanegol."

**Swyddog Monitro –**

"Dim sylwadau o safbwynt priodoldeb"

**Aelod/au Lleol –**

Cynghorydd Anne Lloyd-Jones: "Hollol gefnogol i'r argymhelliad."

Cynghorydd Robert Dewi Owen: "Newyddion da iawn i Ysgol Tywyn. Pryder am beth amser oedd edrych a gweithio i wneud toriadau i gyllideb yr ysgol."

Cynghorydd Mike Stevens: "Mae hyn yn newydd i'w chroesawu. Mae'r Pennaeth a'r staff wedi gweithio'n galed dros y flwyddyn ddiwethaf i gydbwyso pethau, a gyda photensial am fwy o ddisgyblion i'r dyfodol fe fyddai'n wrthgynhyrchiol gorfod colli staff oherwydd sefyllfa anghyson eleni."